

**BALCHDER BRO**

CH SY'N ARWAIN - GYDA CHEFNOGAETH LLYWODRAETH Y DU

PRIDE IN PLACE

LED BY YOU - BACKED BY UK GOVERNMENT

COFRESTR BUDDIANNAU'R**AELODAU****Hysbysiad o Fuddiannau****Enw Aelod o'r Bwrdd**

Mae gofyn i chi ddatgan buddiannau personol i'w cynnwys ar gofrestr gyhoeddus o fuddiannau aelodau.

Darparwch fanylion yr holl fuddiannau yn y bylchau isod. Nodwch 'Dim' lle bo hynny'n berthnasol. Cofiwch fod yn rhaid i chi ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol (gan gynnwys y rhai yn y Gofrestr hon) os ydynt yn ymwneud â materion sy'n cael eu hystyried mewn cyfarfod.

ADRAN 1: BUDDIANNAU ARIANNOL

(a) Rhowch fanylion unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gyflawnwyd gennych.

(b) Nodwch enw'r unigolyn sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, enw unrhyw gwmni yr ydych yn bartner ynddo neu unrhyw gwmni lle'r ydych yn Gyfarwyddwr ac yn derbyn tâl.

(c) Nodwch enw unrhyw unigolyn sydd wedi gwneud taliad i chi naill ai mewn perthynas â chi wrth gyflawni eich dyletswyddau fel Aelod o'r Bwrdd.

(d) Nodwch enw unrhyw gorff corfforaethol sydd â man busnes neu dir yn ardal ffin Cynllun Cymdogaeth Ein Rhyl, **ac** mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau yn y corff hwnnw sydd y tu hwnt i'r gwerth enwol o £25,000 neu un canfed o'r cyfanswm a roddwyd fel cyfalaf cyfrannau'r corff hwnnw.

(e) Disgrifiwch unrhyw gontract ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng Bwrdd Ein Rhyl a chi neu gwmni yr ydych yn bartner ynddo, cwmni yr ydych yn Gyfarwyddwr â thâl arno, neu gorff o'r math a ddisgrifir ym mharagraff (d) uchod.

(f) Nodwch gyfeiriad neu ddisgrifiad arall (sy'n ddigon manwl i adnabod y lleoliad) o unrhyw ddarn o dir lle mae gennych chi fuddiant llesiannol* ac sydd o fewn ardal ffin Cynllun Cymdogaeth Ein Rhyl.

*Mae hyn yn cyfeirio at fod yn berchennog, landlord neu denant ar gyfer darn o dir neu eiddo (gan gynnwys eich cartref), ac eithrio trwy ymddiriedolaeth.

(g) Rhwch gyfeiriad neu ddisgrifiad arall (sy'n ddigonol i nodi'r lleoliad) o unrhyw dir lle mae'r landlord o fewn ardal ffin Cynllun Cymdogaeth Ein Rhyl a'r tenant yn gwmni yr ydych yn bartner ynddo, cwmni yr ydych yn Gyfarwyddwr â thâl arno, neu gorff o'r math a ddisgrifir ym mharagraff (d) uchod.

(h) Rhowch gyfeiriad neu ddisgrifiad arall (sy'n ddigonol i nodi'r lleoliad) o unrhyw dir yn ardal ffin Cynllun Cymdogaeth Ein Rhyl lle mae gennych drwydded (boed hynny ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 diwrnod neu hirach.

ADRAN 2: BUDDIANNAU ERAILL

Nodwch p'un a ydych yn aelod o, neu mewn swydd reoli gyffredinol neu'n rheolwr mewn unrhyw:

(a) gorff yr ydych wedi'i benodi iddo neu wedi'ch enwebu fel cynrychiolydd iddo

(b) awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n gweithredu swyddogaethau o natur gyhoeddus

(c) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen neu gorff sydd â dibenion elusennol

(d) corff y mae eu prif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus

(dd) Undeb Llafur neu gymdeithas broffesiynol

e) clwb neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal ffin Cynllun Cymdogaeth Ein Rhyl.

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon, dylech ei llofnodi a nodi'r dyddiad isod a'i dychwelyd at Ysgrifennydd Ein Rhyl.

Llofnod..... Dyddiad.....

Sylwch fod yn rhaid i chi hysbysu'r Ysgrifennydd o unrhyw newidiadau i'r buddiannau a nodir uchod, cyn pen 28 diwrnod ar ôl cael gwybod am newidiadau o'r fath.